Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | Cyfarfod: | Bwrdd Plismona |
|---|---|---|
| | Lleoliad: | Ystafell Gynadledda SCHTh |
| | Dyddiad: | 21 Mawrth 2016 |
| | Amser: | 13:00 – 13:40 |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC) Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 09/03/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 580** | **MJ i ddarparu manyleb tendr ar gyfer y prosiect camerâu fideo a wisgir ar y corff i aelodau'r Bwrdd Plismona cyn cyhoeddi** | **I'w gyflwyno ddiwedd Ebrill** |
| **PB 581** | **ALP i gynhyrchu gofyniad a chynllun ar gyfer caffael prosiect ymgysylltu â phobl ifainc** | **Ar waith** |
| **PB 582** | **PSA i ddarparu data meincnod o'r cynllun Oedolion Priodol, gan gymharu defnydd HDP â heddluoedd eraill** | **I'w uno â PB 583** |
| **PB 583** | **Adolygu defnydd o'r cynllun Oedolion Priodol a chostau cysylltiedig mewn 6 mis** | **Ar waith** |
| **PB 584** | **PSA i adnabod cyllideb briodol ar gyfer y cyfraniad i swyddfa Crimestoppers** | **Ar waith** |
| **PB 585** | **Yr Heddlu i gadarnhau dyddiad ar gyfer adolygiad adnoddau Diogelu Pobl Fregus, gan gynnwys darpariaeth gweinyddiaeth MARAC, ac adrodd ar hyn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona** | **Cwblhawyd – I'w gyflwyno ddiwedd Ebrill** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth a materion yn codi**

Tynnodd y CHTh sylw at rai diwygiadau yn y cofnodion er mwyn egluro canlyniadau trafodaethau.

## Diweddariad y Prif Gwnstabl

Roedd hi'n dda gan y PG adrodd bod dau swyddog, Pam Kelly a Darren Davies, wedi cwblhau'r Cwrs Rheoli Strategol yn llwyddiannus. Cadarnhaodd y byddai Pam Kelly'n dychwelyd i weithio fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol (PGC) yn dilyn ymddeoliad y PGC/DD Powell. Roedd trosglwyddo'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai Darren yn dychwelyd i'w swydd gyfredol, sef Prif Uwch-arolygydd Dros Dro gyda TARIAN.

Rhoddodd y PG drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys gwrthdrawiad traffig y ffyrdd angheuol ar yr A470 yn Llanidloes ac ymgyrch drawsffin gyda Heddlu Gorllewin Mercia ar gyfer targedu troseddau gwledig. Byddai Ymgyrch Darwen yn cael ei symud ymlaen i ymgyrch Cymru Gyfan. Gofynnodd y CHTh am gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd. Roedd 4 unigolyn wedi'u heuogfarnu ac yn disgwyl dedfryd yn dilyn ymgyrch ymestynnol gan HDP mewn perthynas â herwgipio a llwgrwobrwyo unigolyn. Roedd HDP yn ymchwilio ar hyn o bryd i farwolaeth unigolyn ifanc yn Sir Benfro.

## Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Roedd y CHTh wedi cynnal diwrnod Eich Llais yn y Trallwng. Yn ystod y diwrnod, codwyd pryderon gan y Cyngor Tref ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref. Roedd dros 500 o breswylwyr wedi arwyddo deiseb yn cefnogi Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn y dref. Dywedodd y CHTh y byddai'n parhau i gefnogi penderfyniadau lleol mewn perthynas â'r mater. Cytunodd y PG i drefnu bod yr Uwch-arolygydd lleol yn cwrdd â'r gymuned i drafod sut y mae HDP yn mynd i'r afael â'r broblem a nodwyd. Roedd pryderon hefyd wedi'u codi ynghylch yfed a gyrru yn Llanfyllin.

Mynegodd y CHTh ei ddiolch i'r SCCH sy'n gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd Crucywel, a oedd wedi derbyn Gwobr Genedlaethol Trechu Trosedd am y Cyflwyniad Gorau gan y Gymdeithas Uchel Siryfion.

Hefyd, estynnodd y CHTh ei ddiolch i'r Uwch-arolygydd Claire Parmenter am ei chyflwyniad mewn ymweliad diweddar ar y cyd â Sefydliad y Merched Glan-y-môr.

### *Canlyniadau'r Arolwg Troseddau Busnes*

Nodwyd yr adroddiad, a chytunwyd ei fod yn cynnwys data ystyrlon a chadarn. Roedd yr arolwg wedi nodi nifer o bethau cadarnhaol, gan gynnwys y ffaith bod busnesau'n gwerthfawrogi cyngor atal trosedd a ddarperir gan swyddogion lleol.

## Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol

Dywedodd y PSA na ddeellir oblygiadau ariannol Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys yn llawn eto. Dywedodd y PG bod yr holl wasanaethau brys yn yr un sefyllfa, a HDP fyddai un o'r heddluoedd olaf i gymryd rhan yn y prosiect. Roedd gweithgorau mewn grym i ddatblygu cynlluniau. Cytunwyd fod angen ystyried y mater mor fuan â phosibl er mwyn nodi'r gyllideb briodol.

Dywedodd y PSA fod y cais i Gronfa Arloesedd yr Heddlu am systemau i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed yn y ddalfa wedi bod yn llwyddiannus. Mynegodd y CHTh ei ddiolch i Jessica Williams, Rheolwr Ariannu Allanol, a'r PGC/DD Pam Kelly am eu gwaith o ran cyflwyno'r cais.

## Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau

Dywedodd y CA bod y diweddariad i'r dyfeisiau llaw wedi mynd rhagddo heb unrhyw broblemau. Byddai'r diweddariad nesaf yn digwydd yn hwyr yr haf, a byddai'n cynnwys unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â'r rhaglen dargyfeirio rhag alcohol.

Roedd rhai materion wedi codi trwy'r darparwr teithio newydd, a oedd yn cael eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Cyllid ar hyn o bryd. Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ynghylch y sefyllfa ddiwedd Ebrill.

**Cam Gweithredu: Darparu diweddariad ar y cytundeb gwasanaethau teithio ddiwedd Ebrill**

Roedd Elaine Greenwood o'r Adran Ystadau, a oedd wedi'i nodi fel cynrychiolydd iechyd a diogelwch y flwyddyn yr heddlu, hefyd wedi ennill cynrychiolydd y flwyddyn grŵp diogelwch galwedigaethol Abertawe a Gorllewin Cymru. Gofynnodd y CHTh am i'w longyfarchiadau gael eu cyfleu iddi.

Roedd hi'n dda gan y CA adrodd bod gwelliannau a brofwyd yn yr uned prosesu traffig wedi parhau, gyda llythyr yn cynnig cwrs addysgiadol yn cael ei anfon o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y drosedd. Llongyfarchodd y CHTh bawb a oedd yn gysylltiedig, a gofynnodd am gopi o'r ystadegau.

**Cam Gweithredu: Y CA i roi ystadegau ar gyfer llythyrau sy'n cynnig cyrsiau traffig addysgiadol i'r CHTh, a chyfleu diolch y CHTh i'r rhai sy'n gysylltiedig â gwneud y gwelliannau hynny**

## Adolygiad o Orsafoedd Heddlu Symudol

Roedd hi'n dda gan y PG gyhoeddi bod y pedwar gorsaf heddlu symudol bellach yn llwyr weithredol, yn dilyn datrys nifer o faterion ag offer arbenigol arnynt. Cadarnhaodd y PG

fod y gwaith atgyweirio'n cael ei gwmpasu gan warant. Dywedodd y PG y bu'r ymateb yn gadarnhaol, gyda 15-20 o ymwelwyr ar gyfartaledd mewn trefi maint cyffredin. Disgwyir cynnydd yn nifer yr ymwelwyr wrth i'r tywydd wella. Roedd yr unedau'n cael eu defnyddio ar gyfer amrediad eang o weithgareddau, gan gynnwys – cymorthfeydd bît, ymgyrchoedd, digwyddiadau, a thargedu rhai problemau penodol o ran trosedd. Roedd lleoliadau'r gorsafoedd yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi ar Twitter erbyn hyn, a byddai'r dyddiadur hefyd yn cael ei hysbysebu yn y dyfodol.

Nodwyd yr angen ar gyfer hyfforddi gyrwyr ychwanegol, ac mae cynlluniau ar waith i ddyblu'r 4 fesul sir.

Gofynnodd y CHTh am adroddiad ar gyfnodau gwarant, a'r costau cynnal a chadw disgwyliedig yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu adroddiad ar gyfnodau gwarant a chostau cynnal a chadw disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfer Gorsafoedd Heddlu Symudol**

Dywedodd y CHTh ei fod wedi derbyn adborth cymysg ar y gorsafoedd heddlu symudol, ond roedd yn fodlon bod y materion wedi'u datrys a'u bod nhw bellach yn cael eu defnyddio'n briodol. Ystyriodd fod angen dysgu gwersi mewn perthynas â'r broses yn arwain at leoli'r unedau'n llwyddiannus.

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Gohebiaeth a dderbyniwyd gan "Facewatch"***

Rhannodd y CHTh lythyr gan "Facewatch", gan annog ymateb gan yr heddlu. Dywedodd y PG fod y pwynt cyswllt cychwynnol yn absennol o'r gwaith, ac y byddai cyswllt newydd yn cael ei adnabod. Cytunwyd y byddai'r heddlu'n ymateb i "Facewatch" yn unol â hynny.

***Ffermwyr Sir Drefaldwyn***

Dywedodd y CHTh y dylai HDP ymgysylltu â changen Sir Drefaldwyn o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru mor fuan â phosibl. Cytunodd y PG i ddechrau'r cysylltiad.

***Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan***

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cynnydd o ran sefydlu swydd DBG Cymru Gyfan. Cytunwyd y byddai'r CHTh yn cysylltu â Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent i drafod y mater.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i gysylltu â'r Prif Gwnstabl Farrar i drafod y swydd DBG Cymru Gyfan**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 21/03/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 586** | **Y CA i roi ystadegau ar gyfer llythyrau sy'n cynnig cyrsiau traffig addysgiadol i'r CHTh, a chyfleu diolch y CHTh i'r rhai sy'n gysylltiedig â gwneud y gwelliannau hynny** | **CA** |
| **PB 587** | **Yr heddlu i ddarparu adroddiad ar gyfnodau gwarant a chostau cynnal a chadw disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfer Gorsafoedd Heddlu Symudol** | **PG** |
| **PB 588** | **Y CHTh i gysylltu â'r Prif Gwnstabl Farrar i drafod y swydd DBG Cymru Gyfan** | **CHTh** |